18.08.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Gwyliau gartref ym Miwmares

O draethau braf i fynyddoedd mawreddog, mae'n hawdd gweld pam fod cynifer ohonom yn dewis treulio'n gwyliau yng Nghymru, a phrofi'r perlau sydd i'w cael ar ein stepen drws. Ond oes gan ein gwlad rywbeth i blesio pawb, ac i siwtio bob pwrs?

Yn y gyfres **Gwyliau Gartref** mae dau griw gwahanol yn cael profi'r un lle…ond yr hyn sy'n gwahaniaethu profiadau'r ddau griw yw'r gyllideb. Bydd un criw yn derbyn lwfans sylweddol i'w galluogi i gael gwyliau moethus, a'r llall gyda thipyn llai ble bydd angen bod ychydig mwy creadigol wrth ddewis llety a gweithgareddau.

Yr wythnos hon, tref hudolus Biwmares, ar arfordir Ynys Môn fydd y gyrchfan.

Mae'r ddau ffrind, Owen a Beca yn fyfyrwyr yn y brifysgol ym Mangor, ac yn gobeithio cael gweld mwy o'r ardal lle maen nhw'n astudio.

"Fy ngwyliau delfrydol i yw mynd dramor i wlad boeth, ymlacio o flaen y pwll nofio a dianc o fywyd bob dydd" meddai Owain, o Amlwch, Ynys Môn.

Ond tydi ymlacio ddim ar frig gofynion Beca:

"Dwi falle'n fwy hoff o wyliau anturus. Dwi'n hoffi mynd ar gyrsiau golf, neud cyrsiau *high-ropes*, mynd i nofio mewn afonydd neu efallai'n y môr" meddai Beca sy'n dod o Gaerdydd.

Y criw arall fydd yn profi'r hyn sydd gan Biwmares a'r ardal i'w gynnig fydd Huw, Eirwen, Karen a Nigel o ardal Aberaeron.

"Mae Covid wedi'n gwneud ni'n grŵp bach sy'n ddigon dwl i drio unrhyw beth fi'n credu" meddai Huw.

"Y gobeithion am y trip yma yw cael bach o antur, bach o sbort, creu atgofion, digon o awyr iach a bod tu fas. A gweld ardal newydd gobeithio."

Ond pa griw fydd yn cael penwythnos o faldod, a phwy fydd yn gwylio'r ceiniogau? Pwy fydd yn cael swatio mewn steil mewn cytiau bugail moethus, gyda chwt barbeciw swanc? A phwy fydd yn cael y profiad o glampio go wahanol - mewn hen gerbydau byddin wedi'u hailwampio?

Gydag un criw yn cael taith mewn steil ar gwch preifat ar hyd y Fenai ac yn cael cyfle i ddysgu sut i gadw gwenyn, bydd y criw arall yn gorfod defnyddio bôn braich (neu gryfder coesau) i fynd ar daith ar feics trydan ac adeiladu rafft! Y cwestiwn mawr… a oes modd cael yr un mwynhad dim ots beth yw'r gyllideb?

Gallwch ddal i fyny gyda gweddill y gyfres ar S4C Clic lle mae syniadau ar gyfer gwyliau i siwtio unrhyw boced yn Aberhonddu, Llangrannog, Betws y Coed a Biwmares.

Gwyliau Gartref
Dydd Fawrth 30 Awst, 9.00 S4C
Isdeitlau Cymraeg a Saesneg
Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C

18.08.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

Erthygl i'r Wasg Press Release

Join us for a getaway to beautiful Beaumaris

From beautiful beaches to majestic mountains, it's easy to see why so many of us choose to spend our holidays in Wales, and experience the gems that can be found on our doorstep. But does our country have something to please everyone, and to suit every budget?

In the series **Gwyliau Gartref**, two teams get to experience the same destination. What sets the team's experiences apart is the budget. One team – a family or group of friends, will receive a significant allowance to enable them to have a luxury holiday, and the other gets a smaller budget which means being a bit more creative when choosing accommodation and activities.

This week, the destination will be the magical town of Beaumaris, on the coast of Anglesey.

Two friends, Owen and Beca are students at Bangor University, and hope to see more of the area where they study:

"My ideal holiday is to go abroad to a hot country, relax in front of the swimming pool and escape from everyday life" says Owain, from Amlwch, Anglesey.

But relaxation isn't a top priority for Beca:

"I'm a bit more fond of adventurous holidays. I like to go to golf courses, do high-ropes courses, go swimming in rivers or maybe in the sea," says Beca who comes from Cardiff.

The other group that will experience what Beaumaris and the area has to offer will be Huw, Eirwen, Karen and Nigel from Aberaeron area.

"Covid has made us a small group that is daft enough to try anything, I think," says Huw.

"Our hopes for this trip are to have a bit of adventure, a bit of fun, create memories, plenty of fresh air and be outdoors. And hopefully see a new area."

But which group will have a weekend of being pampered, and who will get to nestle in style in luxurious shepherd's huts, complete with a barbecue area? And who will get to experience glamping with a difference in refurbished old army vehicles?

One group will take a trip in style on a private boat along the Menai Straits and get to learn about bee keeping, while the other will have to use pedal power on a bike and build a raft! But the big question…is it possible to have the same enjoyment no matter what the budget?

You can catch up with the rest of the series on S4C Clic where there are ideas for holidays to suit any budget in Brecon, Llangrannog, Betws y Coed and Beaumaris.

Gwyliau Gartref
Tuesday 30 August 9.00, S4C
English and Welsh subtitles available
On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms
A Boom Cymru production for S4C